
Hawdd ei Ddeall

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol

## Beth fyddwn ni yn ei wneud i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn deg

## Ein cynlluniau ar gyfer 2024 i 2028



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Gyngor Celfyddydau Cymru.** Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Amcanion Cydraddoldeb Strategol Cyngor Celfyddydau Cymru 2024-2028**'.

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

**Medi 2024**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** www.celf.cymru

**E-bost:** grantiau@celf.cymru

**Ffôn:** 03301 242733

**SMS:** 07797 800504

Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys

**Cyngor Celfyddydau Cymru a thrin pobl yn gyfartal ac yn deg...4**

**Ein nodau .......................................................................................6**

# Cyngor Celfyddydau Cymru a thrin pobl yn gyfartal ac yn deg



Rydyn ni'n credu y dylai pawb gael eu gwerthfawrogi a'u trin yn dda.




Dyma gynllun am beth fyddwn ni yn ei wneud i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg, yn ôl eu hanghenion.





Y gyfraith ydy bod gennym ni gynllun am gydraddoldeb. Ond mae hefyd yn rhan bwysig iawn o'n gwaith.



Rydyn ni eisiau i Gymru fod yn lle sy'n greadigol. Ac i gydnabod creadigrwydd holl bobl Cymru.



Dyma ein cynllun ni am beth fyddwn ni'n ei wneud er mwyn gwneud y newidiadau angenrheidiol. Ac i leihau'r anawsterau y mae llawer o grwpiau o bobl yn eu wynebu. Felly mae pawb yn cael cyfle i gymryd rhan a bod yn greadigol.





Roedd ein cynllun diwethaf am gydraddoldeb yn rhedeg rhwng 2020 a 2024. Fe wnaethon ni lawer o waith, ond fe wnaeth Covid ein stopio rhag gwneud cymaint ag yr oedden ni eisiau.



Rydyn ni yn addo gwneud popeth o fewn ein gallu i gyflawni'r cynllun yma. Ac i wneud yn siŵr bod pawb yn gallu cymryd rhan lawn yn y celfyddydau.

# Ein nodau





Mae gennym ni 4 nod mawr. Rydyn ni'n galw'r rhain yn **Amcanion Tymor Hir**. Nawr, fe fyddwn ni yn siarad mwy am bob un o'r rhain.



**1. Fe fyddwn ni yn cynnwys pobl o bob cefndir yn ein holl waith.**



Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn deg ac yn rhoi'r cymorth maen nhw ei angen.




Fe fyddwn ni yn casglu gwybodaeth am y gwaith rydyn ni yn ei wneud. Fe fyddwn ni yn adrodd ar y gwahaniaeth y mae wedi'i wneud.



Mae ein Tîm Arwain Gweithredol yn gyfrifol am gyflawni'r nod yma. Fe fyddan nhw yn adrodd i Gyngor y Celfyddydau am y peth.



**2. Gwneud yn siŵr ein bod yn cyflogi pobl o wahanol gefndiroedd ac anghenion.**



Fe fyddwn ni hefyd yn gweithio i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu talu'n deg.



Fe fyddwn ni yn parhau i edrych ar sut rydyn ni yn recriwtio staff. Ac yn cefnogi gyda hyfforddiant a datblygiad.



Mae llawer o waith i'w wneud yma.



Fe fyddwn ni yn casglu gwybodaeth gan sefydliadau rydyn ni yn eu hariannu bob blwyddyn am y materion yma. Ac fe fyddwn ni yn edrych ar y gwaith rydyn ni yn ei wneud ac yn adrodd arno.



Mae ein Tîm Arwain Gweithredol yn gyfrifol am y nod yma. Fe fyddan nhw yn adrodd i Gyngor y Celfyddydau am y peth.



**3. Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr bod artistiaid a sefydliadau o wahanol gefndiroedd yn cael eu hariannu a'u cefnogi.**



Rydyn ni wedi dysgu bod cynnydd wedi bod yma. Er enghraifft, gyda chael gafael ar arian gan y Loteri. Ond mae angen mwy o waith.




Fe fyddwn ni yn casglu gwybodaeth ac yn adrodd ar hyn.



Mae ein Tîm Arwain Gweithredol yn gyfrifol am y nod yma. Fe fyddan nhw yn adrodd i Gyngor y Celfyddydau am y peth.



**4. Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr bod pobl o wahanol gefndiroedd yn gallu cymryd rhan yn y celfyddydau.**



Rydyn ni wedi gwneud rhywfaint o gynnydd gyda hyn. Ond mae llawer o gymunedau yng Nghymru nad ydyn ni wedi eu cyrraedd eto.



Fe fyddwn ni yn casglu gwybodaeth am y gwaith yma gan sefydliadau rydyn ni yn eu hariannu. Ac o bobl sy'n defnyddio'r celfyddydau o wahanol grwpiau ac anghenion.



Mae ein Tîm Arwain Gweithredol yn gyfrifol am y nod yma. Fe fyddan nhw yn adrodd i Gyngor y Celfyddydau am y peth.